Diweddarwyd Rhagfyr 2025

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Dileu elw o Ofal plant

## Negeseuon allweddol ar gyfer darparwyr cartrefi plant a gwasanaethau maethu 'er-elw'

## Cyflwyniad

**Mae'r ddogfen hon ar gyfer darparwyr cartrefi plant a gwasanaethau maethu 'er-elw'. Mae'n nodi'r negeseuon allweddol am bolisi Llywodraeth Cymru i ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal.**

**Mae wedi'i pharatoi gan Lywodraeth Cymru a'n partneriaid yn Arolygiaeth Gofal Cymru a'i llywio gan faterion a godwyd gan ddarparwyr.**

**I gael rhagor o wybodaeth am yr ymholiadau hyn neu unrhyw ymholiadau cysylltiedig, cysylltwch â'r cyfeiriadau e-bost canlynol**

Llywodraeth Cymru: DileuElw@llyw.cymru neu RemovingProfit@gov.wales

Arolygiaeth Gofal Cymru: AGC.DileuElw@llyw.cymru neu CIW.RemoveProfit@gov.wales

## Beth yw'r newidiadau hyn?

### Pedwar pwynt pwysig

| | |
|---|---|
| 1 | O 1 Ebrill 2026 ymlaen, bydd cyfraith newydd yn dechrau dod i rym yng Nghymru. Yn y pen draw bydd yn atal pob cartref plant a phob gwasanaeth maethu yng Nghymru rhag cael ei redeg am elw preifat. |
| 2 | Byddwn yn dod â'r gyfraith i rym yn raddol i leihau unrhyw darfu ar blant a gofalwyr gymaint â phosibl a gwneud yn siŵr ei bod yn darparu'r manteision y bwriedir iddi eu darparu. |
| 3 | Byddwn yn gweithio gyda chynghorau lleol, darparwyr gofal, asiantaethau maethu, a grwpiau plant wrth inni wneud y newidiadau hyn. Rydym yn ariannu cyngor a gwaith ymgysylltu â darparwyr er-elw y mae'r gyfraith yn effeithio arnynt fel y gallwch gael eich cefnogi i wneud penderfyniadau sy'n iawn i chi. |
| 4 | Ar y cyd ag eraill yn y sector, byddwn yn rhoi arweiniad, cymorth ac adnoddau i chi ac i'r rhai yr ydych yn gofalu amdanynt, er mwyn eich helpu i reoli'r newidiadau mewn modd esmwyth a di-dor. Byddwn yn parhau i gadw mewn cysylltiad â chi, ac i'ch cynnwys a'ch cefnogi yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd nesaf. |

## Cefndir y polisi

- Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad ers tro (drwy ei **Rhaglen Lywodraethu**) i ddileu gallu darparwyr gofal i wneud elw preifat o'r gwasanaethau gofal sy'n cael eu darparu i blant sy'n derbyn gofal.
- Wrth sôn am ddarparwyr gofal, rydym yn golygu cartrefi gofal i blant, gwasanaethau llety diogel, a gwasanaethau maethu ar gyfer y plant hynny sy'n derbyn gofal.
- Mae'r newidiadau rydym yn eu gwneud yn rhan o becyn o welliannau i'r ffordd y mae plant yn derbyn gofal yng Nghymru. Mae'r newidiadau hyn yn golygu y bydd plant a'u teuluoedd yn cael y gefnogaeth orau bosibl, gan ddarparu'r hyn sydd ei angen arnyn nhw mor agos at eu cartref a'u teulu â phosibl.
- Er mwyn gwella'r gwasanaethau hyn, rhaid gwario'r arian ar gyfer y gwasanaethau hynny mewn modd mor effeithiol â phosibl. Dylid ei wario ar greu gwasanaethau gwell, ac ar helpu i gefnogi a datblygu'r gweithlu, yn hytrach na'i ddefnyddio i wneud elw preifat.



## Sut rydym yn gwneud y newidiadau hyn?

Rydym yn gwneud y newidiadau hyn drwy gyfraith newydd o'r enw Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 (Deddf 2025) a fydd yn gymwys yng Nghymru.

## Pryd y bydd y newid hwn yn effeithio arna i?

- Mae Deddf 2025 bellach yn derfynol. Fodd bynnag, ni fydd y newidiadau'n digwydd ar unwaith.
- Er mwyn sicrhau bod pethau'n rhedeg mor esmwyth â phosibl, bydd gwahanol rannau o'r gyfraith yn dod i rym ar wahanol adegau, sef:

**O 1 Ebrill 2026 ymlaen**

**Ni chaniateir i gartrefi plant, gwasanaethau llety diogel na gwasanaethau maethu 'er-elw' newydd gofrestru.**

**Ni chaiff darparwyr presennol cartrefi plant, gwasanaethau llety diogel na gwasanaethau maethu amrywio eu cofrestriad i ychwanegu gwasanaeth neu leoliad 'er-elw' newydd.**

**O 1 Ebrill 2027 ymlaen**

**Nid oes modd ychwanegu unrhyw welyau ychwanegol i gartrefi plant 'er-elw' presennol.**

**Dim gofalwyr maeth newydd yn cael eu cymeradwyo gan ddarparwyr presennol 'er-elw' gwasanaeth maethu.**

**O 1 Ebrill 2030 ymlaen (neu'n gynharach)**

**Ni ellir rhoi plant yng ngofal darparwr 'er-elw' ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.**

*(Er enghraifft, os nad oes lleoedd addas ar gael mewn gwasanaethau nid-er-elw).*

# Atodiad A – Cwestiynau Cyffredin

**Ar sail ein trafodaethau â'r sector hyd yma, dyma rai cwestiynau cyffredin a allai fod yn berthnasol ichi.**

## Rhesymeg

### Mae llawer o ddarparwyr gwasanaethau cartrefi plant a gwasanaethau maethu yn darparu gofal da ac nid ydynt yn gwneud elw gormodol. Pam y maent yn cael eu targedu gan y ddeddfwriaeth hon?

Rydym yn cydnabod bod llawer o ddarparwyr gwasanaethau cartrefi plant a gwasanaethau maeth er-elw yn darparu gofal o ansawdd da ac efallai y byddant yn teimlo bod y ddeddfwriaeth hon yn eu targedu. Er hynny, nid yw'r ddeddfwriaeth hon yn farn ar ansawdd y gofal a ddarperir; yn hytrach mae'n rhan allweddol o'n gweledigaeth ehangach ar gyfer newid system gyfan. Ei nod yw sicrhau nad yw arian cyhoeddus a fuddsoddir mewn gofal plant sy'n derbyn gofal – gan ddechrau gyda gwasanaethau cartrefi gofal i blant a gwasanaethau maethu – yn rhoi elw i unigolion neu endidau corfforaethol ond yn hytrach yn cael ei wario ar wasanaethau plant. Bydd y buddsoddiad hwn yn darparu profiadau a chanlyniadau gwell i bobl ifanc; yn cefnogi datblygu a gwella gwasanaethau; ac yn meithrin datblygiad proffesiynol ymhellach i'r rhai sy'n darparu gofal.

Wrth wneud y ddeddfwriaeth roeddem yn ymwybodol hefyd o adborth gan blant a phobl ifanc yn awgrymu bod ganddynt deimladau cryf am gael gofal gan sefydliadau preifat sy'n gwneud elw o'u profiad o fod mewn gofal. Mae Comisiynydd Plant Cymru a Voices from Care hefyd wedi ymgyrchu ar y mater. Roedd yn argymhelliad gan y Comisiynydd blaenorol yn ei hadroddiadau blynyddol a chafodd y mater ei gynnwys gan Voices from Care yn ymrwymiad yn ei faniffesto ar gyfer etholiad y Senedd.

Er y bydd gweithredu'r ddeddfwriaeth yn arwain yn y pen draw at roi diwedd ar allu gwasanaethau cartref plant a gwasanaethau maethu sy'n gwneud elw i weithredu yng Nghymru, rydym am weithio gyda'r rhai yn y gwasanaethau hyn gan ein bod yn cydnabod y profiad a'r arbenigedd y maent yn eu cyflwyno i ofal plant. Hoffem i'r gwasanaethau hyn aros yn y sector yng Nghymru, o bosibl drwy ailsefydlu eu busnesau fel un o'r pedwar model nid-er-elw a restrir yn Neddf 2025.
Er ein bod yn deall y bydd darparwyr yn gwneud eu penderfyniadau unigol eu hunain am eu dyfodol, rydym am sicrhau bod y penderfyniadau hyn yn cael eu cefnogi gan gyngor a chefnogaeth briodol fel y gallant wneud dewis gwybodus. Dyna pam yr ydym yn cefnogi asiantaeth datblygu Cwmpas i weithio gyda darparwyr i ddarparu cyngor a chymorth arbenigol i gefnogi'r penderfyniadau hyn.

## Cynllunio

### Beth yw'r cynlluniau wrth gefn ar gyfer yr awdurdodau lleol ynghylch gwasanaethau cartrefi gofal plant a gwasanaethau maethu os bydd darparwyr yn dewis gadael y sector? Pa ddarpariaeth sy'n cael ei gwneud i sicrhau bod digon o wasanaethau i blant yn ystod y symud i'r trefniadau newydd?

Mae'r awdurdodau lleol wedi bod yn gweithio ar gynllunio gweithredu, yn unigol ac ar y cyd drwy Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSSC) sy'n cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru i gydgysylltu cynllunio ar draws awdurdodau a gweithio ar feysydd ffocws cyffredin. Bydd angen i lawer o awdurdodau gynyddu darpariaeth breswyl a gwasanaethau maethu, drwy ddatblygu neu ehangu eu darpariaeth fewnol a gweithio gyda'r sector i ddatblygu neu ehangu darpariaeth nid-er-elw. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cyllid refeniw a chyfalaf ychwanegol i'r awdurdodau lleol i gynllunio a chynyddu eu darpariaeth ac mae gwasanaethau newydd yn cael eu datblygu a'u cofrestru.

O ganlyniad i Ddeddf 2025, bydd yn ofynnol i'r awdurdodau lleol hefyd baratoi a chyflwyno cynlluniau digonolrwydd i Weinidogion Cymru sy'n nodi sut y byddant yn cyflawni eu dyletswydd i sicrhau digon o lety i blant sy'n derbyn gofal.

Rydym yn disgwyl i'r awdurdodau ymgysylltu â chi a'ch hysbysu am eu cynlluniau yn y dyfodol. Mewn llawer o achosion, byddant hefyd yn ymgysylltu â chi drwy Gonsortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant – y gynghrair gomisiynu strategol rhwng awdurdodau lleol Cymru

Rydym yn cydnabod y gallai fod angen i'r awdurdodau lleol barhau i ddefnyddio lleoliadau er-elw yn y tymor byr i'r tymor canolig, yn enwedig mewn sefyllfaoedd heb eu cynllunio neu lle mae darpariaeth arbenigol na ellir ei hatgynhyrchu yn hawdd. Yn ystod y cyfnod pontio hyd at ddechrau 2030 bydd yr awdurdodau lleol yn parhau i allu rhoi plant mewn darpariaeth er-elw. O fis Ebrill 2030 ymlaen, ni fydd yr awdurdodau lleol bellach yn gallu gwneud lleoliadau newydd i ddarpariaeth er-elw fel mater o drefn. Bydd angen iddynt wneud cais i Weinidogion Cymru yn ceisio cymeradwyaeth i leoliad mewn darpariaeth er-elw gael ei wneud mewn amgylchiadau eithriadol. Gelwir hyn yn lleoliad atodol.

### Weithiau mae awdurdodau lleol wedi rhoi plant mewn lleoliadau heb eu cofrestru oherwydd prinder lleoliadau addas. Sut y bydd y trefniadau newydd yn sicrhau nad yw achosion o'r fath yn cynyddu yn y dyfodol?

Mae lleoliadau heb eu cofrestru – pan fydd plant sy'n derbyn gofal mewn trefniadau nad ydynt wedi'u cofrestru gydag AGC ond a ddylai fod – fel arfer yn cael eu defnyddio gan yr awdurdodau lleol pan nad oes darpariaeth gofrestredig addas ar gael. Ni ddylid eu hystyried, er hynny, fel rhan o unrhyw ateb hirdymor cynaliadwy i ddarpariaeth.

Rydym am ddileu'r defnydd o leoliadau heb eu cofrestru drwy gyfuniad o ddiwygio deddfwriaethol, buddsoddi, a thrawsnewid y system. Rydym am ddileu'r defnydd o leoliadau heb eu cofrestru drwy gyfuniad o ddiwygio deddfwriaethol, buddsoddi, a thrawsnewid y system. Bydd y darpariaethau yn Neddf 2025 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn ystyried anghenion plant sy'n derbyn gofal yn llawn. Bydd dyletswydd cynllunio digonolrwydd uwch ar yr awdurdodau lleol a gofyniad iddynt gyflwyno cynlluniau digonolrwydd blynyddol i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo. Bydd angen i'r cynlluniau digonolrwydd blynyddol fod yn gadarn, yn seiliedig ar dystiolaeth a nodi'r lefel a'r math o ddarpariaeth sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc.

## Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn annog darparwyr nid-er-elw i ymuno â'r sector neu ehangu?

O fewn strwythur ein rhaglen mae gennym ffrwd waith benodol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu ac ehangu'r sector nid-er-elw. Mae'r ffrwd waith hon yn cael ei chadeirio'n annibynnol ac mae'n cynnwys cynrychiolaeth o ystod o ddarparwyr nid-er-elw.

Mae ei gylch gwaith yn cynnwys nodi camau gweithredu i gynllunio twf yn strategol ar gyfer darparwyr nid-er-elw presennol, nodi rhwystrau posibl rhag twf a nodi camau gweithredu i gefnogi'r awdurdodau lleol i feithrin twf gwasanaethau nid-er-elw yn eu hardaloedd.

# Cyfathrebu

## A oes dulliau cyfathrebu a negeseuon ehangach i gefnogi staff cyn y trefniadau newydd?

## Sut y caiff cyfathrebu â phobl ifanc a gofalwyr ei drin i osgoi gorbryder?

Rydym wedi cyhoeddi cyfathrebiadau wedi'u targedu i gefnogi'r gweithlu gofal preswyl a maethu yn ogystal â phlant a phobl ifanc. Mae'r rhain ar gael yn **Gymraeg** a **Saesneg**. Wrth baratoi'r cyfathrebiadau hyn, buom yn gweithio gyda sefydliadau ac unigolion ar draws y sector, gan ymgorffori eu hadborth i sicrhau eu bod yn darparu eglurder a sicrwydd. Roedd y rhain ar gael i ddechrau i Unigolion Cyfrifol o fewn darpariaeth maethu a gofal preswyl, fel y gallent gael y cyfle i gael sgyrsiau a mynd i'r afael ag unrhyw bryderon a allai fod gan eu staff a'r plant y maent yn gofalu amdanynt.

Byddwn yn parhau i gyfathrebu'n rheolaidd â'r sector, gan gynnwys drwy ymgynghoriadau cyhoeddus wrth inni ddatblygu cynigion manwl ar sut y byddwn yn bwrw ymlaen â rhoi Deddf 2025 ar waith (gan gynnwys newidiadau i'r rheoliadau presennol). Digwyddodd y cyntaf o'r rhain, sy'n canolbwyntio ar sut y bwriedir i'r broses gofrestru weithredu o fis Ebrill 2026, yn ystod yr haf 2025.

# Maethu

## Sut y byddai'r ddeddfwriaeth newydd yn effeithio ar gapasiti gwasanaethau maethu presennol?

Mae'r amserlen weithredu yr un fath ar gyfer gwasanaethau maethu ag ar gyfer gwasanaethau cartrefi plant. Felly, o 1 Ebrill 2027 ni fydd y gwasanaethau maethu er-elw presennol yn gallu cymeradwyo gofalwyr maeth newydd.  Bydd gofalwyr maeth presennol sydd wedi'u cofrestru gyda'r gwasanaethau hyn yn gallu parhau â'u lleoliadau presennol. Er hynny, erbyn 1 Ebrill 2030 ni fydd darparwyr maethu er-elw yn gallu derbyn lleoliadau newydd i blant, heblaw mewn amgylchiadau eithriadol a gwmpesir gan y broses leoliadau atodol a ddisgrifiwyd yn flaenorol..

Y nod yw gwneud y broses yn effeithlon tra'n cynnal mesurau diogelwch angenrheidiol, ac osgoi unrhyw darfu diangen ar leoliadau. Rydym wedi pwysleisio wrth gyfathrebu â gofalwyr maeth y bydd angen eu sgiliau, eu hymrwymiad a'u profiad o hyd i gefnogi plant a phobl ifanc y mae arnynt angen gofal maeth yng Nghymru yn y dyfodol.  Os yw'ch asiantaeth er-elw sy'n bwriadu rhoi'r gorau i weithredu naill ai ar 1 Ebrill 2030 neu cyn hynny, fe'i gwnaed yn glir y bydd angen i ofalwyr maeth wneud trefniadau i drosglwyddo i awdurdod lleol neu wasanaeth maethu nid-er-elw os ydynt yn dymuno parhau i fod yn ofalwr maeth a/neu barhau i ofalu am y plentyn/plant sydd wedi'u lleoli gyda hwy.

## Goblygiadau ymarferol a rhwystrau'r ddeddfwriaeth newydd

### Beth yw'r amserlenni ar gyfer y cyfyngiadau a fydd yn atal lleoliadau newydd o awdurdodau lleol yn Lloegr?

Erbyn 1 Ebrill 2030 bydd lleoliadau newydd o awdurdodau lleol yn Lloegr yn cael eu gwahardd, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.

Bydd yr amgylchiadau penodol hyn yn cael eu nodi mewn rheoliadau, y bwriedir eu datblygu dros y blynyddoedd nesaf a'u dwyn i rym erbyn 1 Ebrill 2030.

### A fydd y trefniadau newydd (lleoliadau atodol ar gyfer awdurdodau lleol Cymru a lleoliadau o awdurdodau lleol yn Lloegr mewn amgylchiadau eithriadol) yn llesteirio neu'n cymhlethu sefyllfaoedd lle mae angen lleoliadau brys? Yn ôl eu natur mae angen gwneud y lleoliadau hynny mewn modd amserol.

Mae'r ddeddfwriaeth wedi'i chynllunio i ganiatáu i gymeradwyaethau ar gyfer lleoliadau brys gael eu ceisio yn ôl-weithredol os oes angen, gan alluogi plant i gael eu lleoli yn gyflym mewn argyfwng.

### A fydd y ddeddfwriaeth yn gweithio'r ddwy ffordd ar gyfer lleoliadau brys rhwng Cymru a Lloegr?

Bydd awdurdodau lleol Cymru yn gallu lleoli plant yn Lloegr gyda chymeradwyaeth ôl-weithredol.

Erbyn mis Ebrill 2030, bydd angen i Weinidogion Cymru gymeradwyo lleoliad brys gan awdurdod lleol yng Nghymru os yw'r lleoliad yn Lloegr gydag unrhyw ddarparwr er-elw neu nid-er-elw nad yw'n awdurdod lleol o Loegr.

Ni fydd angen i awdurdodau lleol Lloegr sy'n dymuno gwneud lleoliad brys yng Nghymru ofyn am gymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru i leoli'r plentyn gyda darparwr er-elw, ond dim ond mewn amgylchiadau penodol a nodir yn y Rheoliadau y caniateir i'r darparwr dderbyn y lleoliad hwnnw. Yn y sefyllfa honno, mater i'r darparwr fydd sicrhau nad ydynt yn mynd â phlentyn y tu allan i'r amgylchiadau hyn.

## Gofal a Chymorth Arbenigol

### Beth fydd y trefniadau newydd yn ei olygu i'r plant hynny y mae arnynt angen gofal mewn cartrefi plant arbenigol sy'n gartrefi er-elw?

Nid oes unrhyw eithriad penodol yn y ddeddfwriaeth ar gyfer cartrefi plant arbenigol sy'n gweithredu er-elw – byddai'r un cyfyngiadau arnynt mewn perthynas â chofrestru, ehangu a derbyn lleoliadau newydd yn gymwys ag ar gyfer gwasanaethau cartrefi plant a gwasanaethau maethu eraill yng Nghymru. Wedi dweud hynny, rydym yn cydnabod y gallai fod achosion lle y bydd angen i leoliadau o fewn y ddarpariaeth arbenigol hon barhau lle nad yw gwasanaethau amgen ar gael i ddechrau. Felly, bydd yr awdurdodau lleol yn gallu parhau i leoli o fewn y ddarpariaeth hon yn ystod y cyfnod pontio drwy'r broses lleoliadau atodol, ar yr amod y gallant ddangos nad oes darpariaeth amgen addas yn bodoli, ac mai dyma'r lleoliad mwyaf priodol.

Rywbryd ar ôl 1 Ebrill 2030 mae'r Gweinidogion yn bwriadu dod â'r trefniadau pontio i ben, gan roi terfyn ar y gallu i wneud lleoliadau atodol o fewn gwasanaethau er-elw. Er hynny, mae'r Gweinidogion wedi bod yn glir na chaiff y penderfyniad hwn ei wneud ond pan fydd yn gyfan gwbl briodol i wneud hynny ac y byddant yn ystyried a oes darpariaeth nid-er-elw ddigonol.

At y dyfodol, bydd angen i'r awdurdodau lleol nodi'r math hwn o ddarpariaeth arbenigol yn eu gwaith cynllunio ac ystyried sut y byddant yn gweithio i ddatblygu darpariaeth amgen. Mewn llawer o achosion, bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol gydweithio yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i nodi ar y cyd hyd a lled y ddarpariaeth hon fel y mae, beth fydd ei angen yn y dyfodol a'r hyn y mae angen bwrw ymlaen af ef yn unigol ac ar y cyd i sicrhau bod y ddarpariaeth hon ar gael ar sail nid-er-elw.

### Beth sy'n digwydd i leoliadau ysgol plant os nad yw sefydliadau yn gwneud y broses bontio?

Mae parhad addysg plentyn yn hanfodol i'w llesiant ac mae gan yr awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i ddiogelu a hyrwyddo pob agwedd ar eu llesiant.

Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu eithriadau lle y byddai rhoi plentyn gyda darparwr nid-er-elw yn anghyson â'u llesiant – mae hyn yn cynnwys tarfu ar eu haddysg. Mewn achosion o'r fath, caiff yr awdurdodau lleol wneud cais am gymeradwyaeth lleoliad atodol, a gaiff ei ystyried gan Weinidogion Cymru fesul achos.

## Sut y bydd y pontio yn effeithio ar ddarparwyr er-elw sy'n darparu gwasanaethau cartrefi gofal i blant ac oedolion?

Mae Deddf 2025 yn gymwys yn benodol i wasanaethau plant o dan gyfyngiad. Mae'n diffinio "gwasanaeth plant o dan gyfyngiad" fel gwasanaethau cartrefi gofal a ddarperir mewn un neu fwy o leoedd lle mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer plant, gwasanaethau maethu, a gwasanaethau llety diogel. Dyma'r gwasanaethau y mae rhaid tynnu elw ohonynt erbyn 1 Ebrill 2030

Nid effeithir ar ddarparwyr sy'n gweithredu gwasanaethau oedolion a phlant ond mewn perthynas â'u darpariaeth i blant. Nid yw eu gwasanaethau i oedolion o fewn cwmpas y ddeddfwriaeth a gallant barhau i weithredu ar sail elw.

Felly, bydd angen i ddarparwyr gwasanaethau plant er-elw sydd hefyd yn gweithredu gwasanaethau i oedolion:

- Gwahanu eu darpariaeth i blant yn endid cyfreithiol nid-er-elw sy'n bodloni'r gofynion a nodir yn adran 6A newydd o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 os ydynt yn dymuno parhau i'w gweithredu y tu hwnt i'r dyddiadau cau pontio.
- Cofrestru'r endid nid-er-elw newydd gydag AGC (Arolygiaeth Gofal Cymru) o dan y fframwaith rheoleiddio diwygiedig.

Os byddant yn parhau i weithredu fel darparwr er-elw o dan y trefniadau trosiannol, byddant yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau ar ychwanegu gwasanaethau neu leoedd newydd o 1 Ebrill 2026, gan ychwanegu gwelyau newydd i gartrefi presennol o fis Ebrill 2027 a'r gofyniad i roi'r gorau i dderbyn lleoliadau newydd o 1 Ebrill 2030, oni bai bod cymeradwyaeth y Gweinidog wedi'i rhoi.

## Beth os wyf yn gweithredu cartref gofal i oedolion a phlant?

Os yw eich cartref yn gofalu am blant yn bennaf a bod y gwasanaeth yn gyffredinol yn cynnwys mwy o blant nag oedolion, byddai'n debygol o gael ei ystyried yn gartref i blant ac fe fyddai'r cyfyngiadau ar ddarparwyr cartrefi plant er-elw yn effeithio arno.

Rydym yn cydnabod mewn nifer bach o achosion y gall fod gwasanaethau sy'n gofalu am nifer cyfartal o blant ac oedolion, neu lle gall y niferoedd amrywio gyda mwy o blant yn cael gofal nag oedolion ar adegau penodol. Yn y pen draw, yr ystyriaeth bennaf fydd beth yw prif ddiben y gwasanaeth ac a ystyrir ei fod yn gofalu yn bennaf am blant neu oedolion. Mewn rhai achosion, bydd angen i Arolygiaeth Gofal Cymru wneud dyfarniad ar hyn – bydd yn gweithio gyda darparwyr unigol i benderfynu ar hyn lle nad yw'n glir ar unwaith o'u gwybodaeth gofrestru.

## Cyllid

### Pa gymorth ariannol sydd ar gael i'r darparwyr er-elw hynny sy'n ystyried ailsefydlu eu hunain ar sail nid-er-elw?

Er nad oes cymorth ariannol uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru i ddarparwyr, rydym yn cefnogi Cwmpas i weithio gyda'r darparwyr er-elw hynny sy'n ystyried ailsefydlu eu hunain ar sail nid-er-elw i ddarparu cyngor ac arbenigedd.

### O gofio y bydd angen cynllunio helaeth a monitro parhaus ar y trefniadau newydd, a oes perygl y bydd unrhyw arbedion posibl yn cael eu negyddu gan gostau rheoli hyn, yn hytrach na chynyddu ansawdd y gofal?

Rydym yn cydnabod bod costau ychwanegol yn gysylltiedig â gweithredu'r ddeddfwriaeth hon i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol unigol ac AGC. Mae'r costau rhagamcanol hyn wedi'u nodi yn yr asesiad effaith rheoleiddiol a baratowyd ar gyfer Deddf 2025, sydd ar gael yma.

Er bod y costau hyn yn debygol o fod yn fwy sylweddol ym mlynyddoedd cyntaf gweithredu'r ddeddfwriaeth, rydym yn rhag-weld y dylai'r rhain leihau yn y blynyddoedd i ddod (er enghraifft wrth i nifer y ceisiadau am leoliad atodol leihau) a byddant o bosibl yn arwain at arbedion i'r awdurdodau lleol yn y tymor hwy.

### Bydd yr awdurdodau lleol yn dal i allu defnyddio staff asiantaeth mewn gwasanaethau plant a ddarperir gan asiantaethau er-elw. A fydd hyn yn golygu y bydd costau sylweddol yn dal i gael eu hysgwyddo drwy ddefnyddio gwasanaethau er elw?

Rydym yn cydnabod y gall defnyddio darpariaeth asiantaeth breifat arwain weithiau at gost ormodol i'r awdurdodau lleol ac nad yw hyn o bosibl yn defnyddio arian yn y ffordd fwyaf effeithiol.

Rydym yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol i ystyried sut y gallwn leihau eu dibyniaeth ar staff asiantaeth a gwella cadw staff, gan gynnwys edrych ar raddfeydd cyflog a chynlluniau recriwtio.

## Ymddiriedolwyr

### Os bydd cynnydd yn nifer yr elusennau sy'n gweithredu cartrefi plant a gwasanaethau maethu o ganlyniad i'r ddeddfwriaeth, gallai hyn arwain at heriau wrth ddod o hyd i bobl i weithredu fel Ymddiriedolwyr.

Rydym yn cydnabod y gallai fod heriau i elusennau ddod o hyd i ddigon o bobl i weithredu fel Ymddiriedolwyr.

Byddwn yn gweithio gyda'r Comisiwn Elusennau i fonitro graddfa'r mater hwn ac o bosibl yn nodi camau pellach os bydd angen.

OGL © Hawfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG53593, ISBN digidol 978-1-80633-871-9
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg